

Gair bach Bethlehem 17



www.bethlehem.cymru

(trydar) @GweBethlehem

Gwaelod-y-garth

Cyfnod y 'Covid-19' – rhif 17 2020

(Arbedwch inc a phapur! Peidiwch ag argraffu hwn – dim ond ei ddarllen ar-lein.)

TRAFOD YR AIL GYCHWYN



Fore Llun, yn eu cyfarfod ar Zoom, bu diaconiaid Bethlehem yn trafod y canllawiau sydd ar gael ynglŷn ag ail-agor yr adeiladau ar gyfer cyd-addoli. Mae Undeb yr Annibynwyr, yn ogystal â Llywodraeth Cymru, wedi darparu nifer o argymhellion a chyfarwyddiadau, ac wrth gwrs mae rhai o'r rhain yn newid o wythnos i wythnos. Ar dudalen 3, cewch ddarllen crynodeb ein hysgrifennydd o'r penderfyniadau hyd yma.

Gwerthfawrogiad

Mae Rhian Phillips eisiau mynegi ei gwerthfawrogiad o'r negeseuon cynnes, sydd wedi bod yn gysur ac yn gefnogaeth iddi yn y dyddiau anodd diwethaf.



Neges o ddiolch gan Caryl Eldridge

Rydw i am ddweud gair o ddiolch i chi am gynnwys ymgyrch fy ngŵr i godi arian i fanc bwyd Pontypridd yn 'Gair bach Bethlehem' nôl yn mis Mehefin. Llwyddodd i godi £1272 yn y diwedd! (gweler tudalen 2 am y stori'n llawn)

Ugain mlynedd yn ôl!



Ugain mlynedd i'r mis hwn, roedd aelodau Bethlehem yn paratoi ar gyfer ymddangos ar lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanelli. Ar dudalennau 8 & 9 mae casgliad da o luniau manylach na'r rhai uchod o'r gystadleuaeth honno – ac atgofion Delyth Evans, ein harweinyddes am y perfformiad (a'r un blaenorol yng Nghasnewydd 1988). (Gyda llaw - rydyn ni'n dal i chwilota am luniau o gôr 1988 ar y llwyfan. Rhowch wybod os oes ganddoch chi un.)

Newid yn y manylion ymuno ar fore Sul

Cofiwch bod y cyfeiriad Zoom ar gyfer ymuno â gweithgareddau'r Ysgol Sul ar-lein wedi newid erbyn hyn. Byddwn yn defnyddio'r linc isod o hyn ymlaen:

<https://zoom.us/j/92342827487?pwd=T3ZFNUZzZkFxbTZwQTQ5TlIFa2Fpdz09>

ID: 923 4282 7487

Cyfrinair: 739160

A dyma'r Ysgol Sul fu'n trafod gwair!



Mae 'na dipyn o sôn yn y Beibl am wair – ac y mae nifer fawr o wahanol enwau gyda ni yng Nghymru amdano, sef glaswellt, porfa – oes rhagor o enwau? Yr wythnos ddiwethaf, gofynnwyd i'r plant edrych am stori am wair yn y Beibl e.e. hanes Moses yn cael ei osod mewn basged wedi'i greu o frwyn a'i guddio yn yr hesg (dau fath o wair); esboniad Joseff am y tywysennau o rawn; dameg yr heuwr. Yna fe aethant i gasglu'r gwahanol mathau ac edrych yn fanwl ar eu blodau, ac fe gawsom gasgliad hyfryd o ffotograffau gan Megan, Awen, Sara, Ifan, Luned, Alys ac Anni.

Heulwen Jones

heulwen@btinternet.com

07779 360614

Marc yn gwneud ei farc ar y beic – ac yn diolch i bawb!



Ydych chi'n cofio dair wythnos yn ôl, fel y bu inni adrodd hanes Marc Eldridge yn reidio 12 awr ar ei "feic i unlle" yn codi arian at elusen? Mae e wedi dod yn ôl aton ni, yn ddiolchgar i bawb gyfrannodd ac mae'r cyfanswm bellach yn £1272.

Rhag ofn i chi fod wedi bwriadu cyfrannu, ond fod rhywbeth wedi dod i'ch rhwystro – dyma'r manylion eto:

Roedd beic Mark wedi ei osod yn ei gartref yn yr Eglwys Newydd i gysylltu gyda system fesur "ar-lein" i gofnodi ei weithgaredd seiclo. Drwy drefn ar-lein "Zwift" roedd y 12 awr yn cynrychioli shift arferol un o weithwyr y GIG ac roedd beic Mark wedi'i gysylltu â'r "app" fyddai'n mesur ei bŵer, cyflymder a'i bellter mewn byd rhithiol. Y nod oedd codi £1,000 ar gyfer Banc Bwyd Pontypridd. Dewisodd Mark yr elusen hon gan ei fod e'n athro yn Ysgol Uwchradd Pontypridd ac felly'n ymwybodol iawn o sut mae'r ardal wedi dioddef yn arw yn ddiweddar. Yn ôl y cyfrifiadur, mae'n debyg iddo seiclo am 180 milltir – o 7.00 y bore hyd 7.00 yr hwyr. Os dymunwch chi gefnogi ei gamp, yna dilynwch y linc: gf.me/u/x8n6p4

Cynhaliwyd ail gyfarfod Diaconiaid Bethlehem ar Zoom ar fore Llun y 13eg o Orffennaf.

Anfonwyd cofion at Delwyn Sion, sydd o hyd yn dioddef o anhwylder i'w gefn.

Prif amcan y cyfarfod oedd adolygu'r sefyllfa bresennol yng nghyd-destun lles aelodau ac adeilad Bethlehem, Gwaelod-y-garth yn wyneb yr heriau yng nghyfnod y "Gofid Mawr".

Trafodwyd y canllawiau diweddaraf a dderbyniwyd oddi wrth Undeb yr Annibynwyr, yn deillio o lacio peth ar Reoliadau Llywodraeth Cymru yn sgil yr haint.

'Rydym yn dal i fod o fewn hualau'r "Cyfnod Coch" fel y'i diffinnir gan y Llywodraeth, ac mae hawl felly i fannau addoli "agor eu hadeiladau i ddefosiwn preifat unigolion a phersonau o'r un aelwyd".

Byddai trefn o'r fath yn gorfod bod dan oruchwyliaeth er sicrhau diogelwch pob unigolyn (rhag yr haint) a fyddai'n mynychu.

Byddem yn falch o dderbyn arweiniad gennyh - a ydi hyn yn rhywbeth y dymuneh ei weld yn digwydd ym Methlehem?

Mae hefyd ganllawiau ar gyfer paratoi i symud i'r Cyfnod Oren pryd y bydd hawl gennym i "...gynnal addoliad cynulleidfaol cyfyngedig".

Ni fyddai hynny yn digwydd heb yn gyntaf wneud "asesiad risg", ac mae'r Undeb wedi paratoi "Ffurflen Asesiad Risg" i'w dilyn.

Dyma'r oblygiadau (crynodeb) sydd ynghlwm wrth addoliad "cynulleidfaol cyfyngedig" fel y'i cyflwynwyd gan yr Undeb:-

- Cadw pellter o 2 fetr rhwng unigolion o wahanol aelwydydd
- Darpariaeth ar gyfer golchi dwylo wrth y fynedfa
- System un ffordd i fynd mewn ac allan
- Osgoi cyffwrdd ag unrhywun, ac unrhyw arwynebedd, yn ddiangen
- Osgoi canu emynau / Bedydd/ Cymun/ lluniaeth
- Osgoi rhannu defnydd o unrhyw offer / cyfarpar e.e. piano, Beiblau, llyfrau emynau
- Osgoi'r modd arferol o gasglu
- Annog pawb i beidio defnyddio'r tŷ bach cyn belled ag y bo hynny yn bosibl.
- Cyrraedd mewn amser ac aros tan ddiwedd yr oedfa – pawb i adael yn drefnus cyn gynted ag y bo modd
- Cadw cofnod o bresenoldeb
- Byddai'n angenrheidiol glanhau'r adeilad cyn y cyfarfod nesaf "yn ôl y drefn hylendid arferol".



Argymhellodd y Diaconiaid na ddylid ystyried addoliad "cynulleidfaol cyfyngedig" o fewn muriau'r capel tan o leiaf y Sul cyntaf ym mis Medi.

(Byddai symud i'r cyfeiriad yna yn ddibynnol yn ogystal ar unrhyw gyfarwyddyd pellach oddi wrth Lywodraeth Cymru yn y cyfamser.)

Yn ychwanegol, cyn agor am y tro cyntaf, byddid yn sicrhau bod y capel wedi cael ei lanhau'n drwyadl ar gyfer ein defnydd.



Mae'r Undeb hefyd yn pwysleisio mai'r Ymddiriedolwyr, ac nid y Diaconiaid, sydd a'r cyfrifoldeb dros ail-agor yr adeilad a phryd i wneud hynny.

Cafwyd trafodaeth fer ar natur yr oedfaon / yr Ysgol Sul o fewn y Cyfnod Oren, gan hefyd geisio rhagweld y galw am ddefnydd helaethach o ddeunydd wedi ei recordio / deunydd ar y gwahanol wefannau, ac hefyd y posibilrwydd o recordio ein gwasanaethau ym Methlehem ar gyfer yr aelodau na fyddai'n teimlo gysurus mewn mynychu oedfaon tan bod yr haint dan reolaeth neu wedi cilio.

Cytunwyd y byddid yn gofyn cyngor Swyddog Technegol yr Undeb ar y ffordd ymlaen.

Awgrymwyd hefyd, wrth fynegi'n gwerthfawrogiad o gyfraniad aruthrol Ifan Roberts, a'r holl gyfranwyr, ers dechrau'r cyfnod clo, i "Gair bach Bethlehem", y dylid caniatáu cyfnod o seibiant i'r Golygydd yn ystod mis Awst.

Serch hynny byddai croeso o hyd yn ystod y cyfnod i unrhyw un ddanfôn deunydd ar gyfer ei gynnwys ym mis Medi.

Bydd Cwrdd Diaconiaid arall, ar Zoom, ar y 3ydd o Awst 2020.

Mae Covid-19 wedi gorfodi un o bob pedwar ohonom i fod yn ofalwyr. Ffaith sydd yn tanlinellu pwysigrwydd a chyfraniad gofalwyr sydd yn gwirfoddoli i ofalu am gymar, rhiant, plentyn neu ffrind. Er bod y gofal yma yn arbed biliynau o bunnau i'r wladwriaeth, gan mai aelodau teulu yn bennaf sydd yn darparu'r gofal yn ddi-dâl, ond ychydig o sylw mae y rhan hon o'r sector gofal yn cael gan wleidyddion a'r wasg.

Pan sefydlwyd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 72 blynedd yn nôl, gwella cleifion oedd y flaenoriaeth, nid gofal tymor hir. Roedd Nye Bevan a'i gefnogwyr yn disgwyl i'r gymuned a theluoedd ofalu am yr henoed. Trin afiechydon neu anafiadau wedi damweiniau, yn hytrach na gofal am iechyd meddwl neu anabledd corfforol, oedd y weledigaeth nôl yn pumdegau y ganrif ddiwethaf. Bron na ddywedwn i mai felly mae hi o hyd. Awdurdodau lleol yn hytrach na llywodraeth y DU sydd yn goruchwylio gofal. Mae rhai pleidiau gwleidyddol bellach yn galw am sefydlu Gwasanaeth Gofal Gwladol.

Un peth y mae Covid-19 wedi'i wneud ydi tynnu sylw at yr agendor enfawr rhwng iechyd a gofal, o ran adnoddau a buddsoddiad, yn ogystal â statws a pharch. Mae mwy o farwolaethau Covid wedi digwydd yn y sector gofal, yn y gymuned, mewn cartrefi gofal, neu yng nghartref yr ymadawedig, nac mewn unrhyw ysbty. Yn wir mae lle i gredu bod llawer o'r trasiadau hynny wedi digwydd oherwydd symud unigolion o ysbtyai i gartrefi gofal, ac yna oedi cyn holi oedd y feirws yn bod eisoes yng nghorff y cleifion cyn gadael yr ysbty.

Rydw i'n cadeirio pwyllgor sydd yn cynghori y Llywodraeth yng Nghaerdydd ar sut i wella sefyllfa gofalwyr di-dâl. Mae y data cenedlaethol yn awgrymu bod 94% o'r gofal sydd yn digwydd yng Nghymru yn ddibynnol ar wirfoddolwyr. Llawer o'r unigolion hynny wedi aberthu gyrfa a bywyd personol i ofalu am eu hanwyliaid. Mae gan Gymru fwy o ofalwyr hŷn nag unrhyw ran arall o'r DU, a mwy sydd yn rhoi mwy na hanner can awr yr wythnos o ofal am ddim. Ond un o'r ystadegau mwyaf ysgytwol ydi bod yna 230.000 o ofalwyr ifanc, rhai mor ifanc a naw mlwydd oed. Mae'r plant yma'n gofalu am rieni, neu deidiau a neiniau, neu frodyr a chwiorydd, cyn mynd i'r ysgol, a thrwy'r nos wedi dychwelyd o ddiwrnod yn y dosbarth.

Un o amcanion y pwyllgor gweinidogaethol ydi sicrhau brêc i'r gofalwyr di-dâl, encil i adnewyddu corff ac enaid, ac i'r gofalwyr dan 18, y cyfle i ddal ymlaen gyda'u haddysg neu hyfforddiant.

Blwyddyn union yn ôl, ymhell cyn bod sibrydion am feirws, penderfynodd teulu fy nghymar, gyda chaniatâd y fam, bod angen gofal cartref arni. Wrth iddi adael ei chartref, rydw i'n cofio edrych am adnod fyddai'n addas i'r trawsnewid fyddai'n digwydd yn ei bywyd. Jer 39/12 sydd yn cwmpasu gobeithion y teulu am y gofal ar y pryd "Cymer ofal amdani, paid gwneud dim niwed iddi"

Mae'r cartref yn un o'r ychydig lwyddodd i gadw'r feirws draw. Ond am ba bris? Dydy'r teulu heb fod yng nghwmni y fam ers mis Mawrth. Mae pob ymweliad a'r cartref wedi ei wahardd. 'Alexia show' ar ffôn ydi'r unig gyswllt posib. Mae'r fam, sydd yn 94 mlwydd oed, wedi cadw ei sirioldeb er gwaetha'r unigrwydd a'r alltudio. Ei gobaith ydi y caiff hi, cyn hir, fynd allan am goffi, sgwrs a siopa. Mae 'na ofal da a charedig o'n cwmpas. Gobaith llawer ydi y bydd posib codi safon a statws y gofalwyr wedi dyddiau Covid-19. Salmau 8/4 sydd yn dweud "Beth yw dyn, iti ei gofio, a'r teulu dynol, iti ofalu amdano?"




Awydd anfon cyfraniad i'r rhifyn nesaf o "Gair bach Bethlehem"?

Ewch ati nawr – ac anfon gair erbyn Gorffennaf 22 (neu cyn hynny) at: tycnau@aol.com

Yr wythnos gyntaf o Awst, mae Alun yn cyflwyno darlith ar-lein ar y testun uchod ar gyfer "AmGen", yr Eisteddfod Genedlaethol rithiol sydd ar waith oherwydd gohirio Prifwyl Tregaron. Dyma i chi ragflas o gychwyn y ddarlith honno.



Pam 'glas'? Dyna oedd y cwestiwn. A wyddwn i mo'r ateb. Er yr holl ymchwil, aeth â fi tros Gymru gyfan (heb sôn am Seland Newydd, India, Yr Eidal ac America) rhaid oedd troi carreg arall i ddarganfod pam 'glas.' Hynny yw, pam nad 'coch' neu 'wyrdd' neu 'felyn.'



Sôn ydw i am Wobr Goffa David Ellis. Pwy, tybed, fyddai wedi ennill y Rhuban Glas eleni yn Nhregaron. A chan fod gan yr Eisteddfod, bellach, nifer o rhubantau glas – rhai lleisiol, rhai offerynnol – pa un o'r rhubantau glas dwi'n sôn amdano?

Cyn ateb y cwestiwn yna, beth am y cwestiwn cyntaf! Pam 'glas'? Fe wŷr y llongwyr a'r hwylwyr yn eich mysg mai rhuban glas ddyfarnwyd i'r llong deithiodd gyflymaf ar draws yr Iwerydd rhwng Southampton ag Efrog Newydd ac yn ôl. Ond mae arwyddocâd hynach na hynny i'r 'glas'. Y 'Cordon Bleu' oedd yr Urdd Uchaf o Farchogion yn Ffrainc [*The Knightly Order of the Holy Spirit*] a gyflawnodd y gamp fwyaf hynod o gwrteisi a boneddigeiddrwydd. Felly, fe ddatblygodd yn arwydd o

gyflawni camp eithriadol mewn unrhyw faes, boed hynny'n goginio, rasio llongau neu, yng nghyd-destun yr Eisteddfod – llais canu gorau'r Wyl.

A dyna ddod yn ôl at y Rhuban Glas, sef gwobr Goffa David Ellis. Fe fu adeg, cyn yr Ail Ryfel Byd, pan ddyfernid Medal Aur i lais gorau'r wythnos. Ond oherwydd y rhyfel roedd natur, a maint, Eisteddfodau cynnar y pedwar degau [1940-42] yn dra gwahanol a doedd dim aur ar gael i bwrpas adloniadol.

Yn niwedd Mai 1941 bu farw un o brif denoriaid Cymru yn ei ddydd, sef David Ellis. Yn enedigol o Acrefair, rhwng Llangollen a Wrecsam, roedd y canwr galluog a swynol yma wedi ennill deirgwaith yn yr Eisteddfod Genedlaethol – yn Lerpwl 1900, Y Rhyl 1904 ac Abertawe 1907. Prentis teiliwr oedd o, mab i ddyn siop y groser. Fe'i darbyllwyd y dylai astudio cerddoriaeth yn Llundain. Ar ôl ennill yn Abertawe, dyna a wnaeth. Bu'n fyfyrwr yn y Coleg Cerdd Brenhinol. Ond fe darfydd ar ei yrfa gan y Rhyfel Mawr. Ar waethaf pob anhawster fe wnaeth enw da iddo'i hun ac fe'i gwahoddwyd yn ôl i lwyfan y Brifwyl droeon i ganu mewn cyngherddau; y tro diwethaf iddo ymddangos oedd yn Wrecsam 1933.


Oherwydd bygythiad yr Ail Ryfel Byd symudodd ef a'i wraig, Sarah, o Lundain i ardal Minera ger Wrecsam. Pan fu farw casglwyd swm o arian i'w goffáu. Casglwyd £200, sy'n cyfateb i £11,000 heddiw, a'i roi i'r Eisteddfod i gystadleuaeth "i enillwyr rhwng buddugwyr prif unawdau yr Eisteddfod."

Daeth y gystadleuaeth i fod yn 1943 ym Mangor. Yn wreiddiol, roedd yr Eisteddfod i'w chynnal yn Llangefni ond oherwydd y rhyfel barnwyd y byddai'n fwy diogel ei chynnal ar y tir mawr. Fe'i cynhaliwyd yn 'Chwaraedy'r Sir' yn ôl y Rhaglen Swyddogol, hynny yw y County Theatre lle'r oedd Adran Adloniant Ysgafn y BBC wedi'i adleoli am bron i dair blynedd o Lundain. Ond stori arall yw honno.

Enillydd cyntaf y Rhuban Glas oedd merch ifanc o Lwynhendy o'r enw Megan Thomas. Bu teilyngdod bob blwyddyn oddi ar hynny. Ond fe erys y cwestiwn, nid pam 'glas' ond pwy fyddai wedi ennill eleni yn Nhregaron!



Rhai o'r cyn enillwyr lofnododd gyfrol Alun yn ystod y lansiad ym Mhrifwyl Llanelli.



Miss Maggie Llywelyn Jones oedd ein cymdoges ni yn Nantlle. Kinmel Terrace oedd y rhes tai ,ar ôl 3ydd Arglwydd Dinorben 1827-1911. (Fo adeiladodd Kinmel Hall ger Abergele, ar gorn tlodion Gwynedd a Môn. Gelwid y tŷ yn “Versailles Cymru”. Roedd iddo 60 o stafelloedd i’r gweision a hyd yn oed stafell smwddio papur newydd. (noder . buasai JE wrth ei fodd yna. Digon o bapurau newydd a’r rheiny i gyd yn daclus – ei gas beth yw papur newydd blêr!!!!)

Nôl at y stori....Roedden ni’n byw yn rhif 9, yr olaf o’r rhes. Digon o ardd ar dalcen y tŷ i chwarae, tyfu llysiau a chadw ieir. Ond Anti Maggie Jôs oedd hi i ni.

Bob tro bydda i’n clywed cân Bryn Fôn i Jên Jôs neu Magi Nain i Bryn, mi fydda i’n meddwl am Anti Magi Jôs. Yno yr aem ni i ddangos sgidiau newydd (prin iawn) neu ddilledyn oedd wedi dod i’n meddiant .Hi oedd ein “guru” pan fyddai gwaith cartref Algebra a Lladin yn drech, a chawsem hyd yn oed ddefnyddio ei thŷ bach yn yr ardd pan fyddai un o’r 5 ohonom yn methu aros!! Hi roddodd Jwg Huw Jones Glandeulyn i mi (os ydych wedi digwydd darllen ôl-rifynnau!)



Pan anwyd Sara yn 1976, roedd Anti Magi Jôs yn dal i fyw drws nesaf, a rhywbryd yn ystod yr haf poeth yna ‘ – 76, aethon i Nantlle i ddangos ein “tywysoges” i’r pentrefwyr, ac i aros efo Mam wrth gwrs. Rhaid oedd ymweld â drws nesa’.

“Dw i’n ofnadwy o falch eich bod wedi ei galw yn Sara, achos dyna oedd fy enw i, i fod”
 “Pam na chawsoch chi’ch enwi yn Sara?” oedd y cwestiwn amlwg.

A dyma’i stori.

“Fe’m ganwyd i yn 8 Kinmel Terrace – yr hynaf o 3 o blant. Roedd fy Nain, Margaret Llywelyn Jones, wedi symud i fyw atom o dyddyn Blaen y Garth, ac yn edrych ymlaen at helpu i fagu’r fechan ar yr aelwyd.

Gofynnodd fy Nain beth oedd enw’r fechan i fod, a chafodd w’bod mai Sara oedd yn mynd i gael ei galw.

Sylwodd fy mam nad oedd fy Nain yn cymryd dim diddordeb o gwbl yn of, a chredai ‘Nhad a Mam mai cenfigennus oedd nad oedd neb yn talu sylw dyledus iddi hi.

Mae’n ofynnol i gofrestru enw plentyn o fewn cyfnod arbennig, ac ar nos Wener, aeth fy nhad ar ei feic i Benygroes i wneud hynny .Daeth yn ôl a chyhoeddi ‘Wel mae Magi fach wedi ei chofrestru’

Gafaelodd fy Nain yn of a dweud ‘Mae traed y fechan fel rhew. Dewch a hi yma i mi gael twymo’i thraed wrth y tân – ac mi agorodd llifddorau o gariad ataf’

Cofleidiodd Anti Magi Jôs ein “tywysoges” fach ni. Dyna ystyr ei henw, fel mae’n digwydd!!!

Rwy’n cofio neges i gloi adroddiad digri flynyddoedd yn ôl ble’r oedd hen wag yn gwylio gwasanaeth ar y teledu gan ddweud, “Mae’n hyfryd cael oedfa mor agos, ond hefyd cael casgliad mor bell!” Rhaid dweud mai golwg wahanol sydd ym Methlehem gydag ambell aelod wedi gofyn i mi’n ddiweddar sut gallan nhw gyfrannu at y casgliad â’r capel ar gau.

Yr ateb symlaf o’r rhan i yw drwy anfon siec, yn daladwy i Bethlehem Gwaelod y garth, i’r cyfeiriad, 23 Alfreda Road, Yr Eglwysnewydd, Caerdydd CF14 2EH.

Rwy’n eich clywed yn gofyn “Pam na alla’i wneud hyn yn uniongyrchol i’r banc?”, a’r ateb yw er mwyn osgoi’r llwyth gwaith y byddai hynny’n ei olygu i’r trysoryddion. Mae angen inni gofnodi’r cyfraniadau yn ôl y rhoddwyr a byddai gwneud hyn o’r cyfriflenni banc yn dipyn o dasg. Does dim modd imi holi’r banc am fwy o fanylion y rhoddwr nag sy ar y gyfriflen, ac os nad wyf yn gallu nodi’r rhoddwr, fedra’i ddim hawlio Rhodd Cymorth ar y cyfraniad.

Os ydych mewn sefyllfa lle na fedrwy chi anfon siec, rhowch alwad imi (029 20 62 12 66) a gallwn drefnu. Os ydych yn dymuno cyfrannu’n fisol drwy orchymyn banc mae hynny’n syml a gallaf anfon y manylion atoch o dderbyn eich galwad. Mae tua 40% o’r cyfraniadau yn cyrraedd drwy orchymyn banc ac mae’r ffynhonnell hon yn werthfawr iawn am ei bod yn gyson.

“Yr Efengyl Ysbrydol”

I'r cwestiynau pwy oedd Ioan, ble'r oedd e'n byw, pwy oedd ei gynulleidfa, dyddiad ysgrifennu, nid oes un farn gyffredin ymhlith ysgolheigion. Yr awdur, yn ôl traddodiad, oedd y disgybl Ioan, mab Sebedeus (y disgybl annwyl), a'i fod yn



byw yn Effesus hyd amser yr Ymerawdwr Trajan (98-117 O.C.) Nid yw hyn yn cael ei dderbyn gan bawb. Y mae rhai yn gweld ôl llaw mwy nag un awdur ar y testun.



Yr hyn na ellir ei wadu yw bod Ioan yn wahanol iawn i'r efengylau eraill, ac yn wahanol i bob llyfr arall yn y Testament Newydd o ran hynny. Cynnyrch cyfnod o holi, meddwl dwys a dwfn, a chwestiynu materion yn ymwneud â chrefydd (60 O.C. - canol yr ail ganrif.) Dyma gyfnod Plato, y Stoiciaid, Hermetica, Gnosticiaeth, y Madeiaid, y crefyddau dirgel – ac mae llyfrgelloedd yn llawn o lyfrau'n ceisio dadansoddi dylanwad gwareiddiad Groeg ar Efengyl Ioan, heb sôn am lyfrau yn cysylltu Ioan â chymuned yr Eseniaid a Sgroliau'r Môr Marw. Mae cyfrolau hefyd am y cysylltiad(au) â Llythyrau Ioan a Llyfr Datguddiad.

Pwrpas diwinyddol sydd i'r llyfr. Fe'i hysgrifennwyd “er mwyn i chwi gredu mai Iesu yw'r Meseia, Mab Duw, ac er mwyn i chwi, trwy gredu, gael bywyd yn ei enw ef.” (20.31) Ymhlith nodweddion yr efengyl rhaid nodi dau beth:

[1] y gwyrthiau, neu arwyddion fel mae Ioan yn eu gweld. Mae yna saith: troi dŵr yn win (2), iachau mab y swyddog (4), iachau wrth y pwll (5), porthi'r pum mil (6), cerdded ar y dŵr (6), iachau'r dyn dall (9), cyfodi Lasarus (11).

[2] areithiau “Myfi yw” yr Iesu. Mae saith o'r rhain hefyd: Myfi yw bara'r bywyd (6), Myfi yw goleuni'r byd (8), myfi yw drws y defaid (10), Myfi yw'r bugail da (10), Myfi yw'r atgyfodiad a'r bywyd (11), Myfi yw'r ffordd a'r gwirionedd

a'r bywyd (14), Myfi yw'r wir winwydden (15).

Cafodd Efengyl Ioan gryn ddylanwad ar ein hanes. Mae Ioan yn cyfeirio at wrthwynebwyr Iesu fel “yr Iddewon”. Rhywfodd aeth hynny'n gondemniad o bob Iddew. Bu i hynny ganlyniadau brawychus yn hanes yr eglwys ac yn hanes y byd, sef gwrth-semitiaeth. Dim ond un enghraifft ymhlith llawer ar hyd y canrifoedd o gamddeall a chamddehongli'r Beibl, a'i ddefnyddio i hyrwyddo a chyfiawnhau gweithredoedd sydd wedi dwyn anfri ar Newyddion Da Iesu. Mae ysgolheictod Beiblaidd goleuedig mor bwysig i fagu Cristnogion goleuedig, sy'n gwybod pam maen nhw'n dilyn Iesu, a beth mae dilyn Iesu yn ei olygu.

<https://www.britannica.com/topic/Gospel-According-to-John>

https://en.wikipedia.org/wiki/Gospel_of_John

(Diolch arbennig i Allan am baratoi'r gyfres o erthyglau ar yr Efengylau. Ac fel golygydd, diolch iddo am eu hanfon i gyd ymlaen llaw - bu'n help mawr i olygydd oedd yn gofidio sut i lenwi'r rhifyn nesaf!)

Dyma'r adeg o'r flwyddyn, ym 1988 a 2000, yr oedd aelodau Bethlehem yn darparu ar gyfer cystadlu fel côr capel neu bentref yn Y Brifwyl. Cyfle felly i gael yr hanes gan yr arweinyddes! A dangos ambell lun!

Gwanwyn 1988 oedd hi siŵr o fod, a'r cais wedi dod y byddem ni aelodau Bethlehem, y Gwaelod, yn creu côr i gystadlu yn Steddfod Genedlaethol Frenhinol Casnewydd. Sdim angen dweud pwy benderfynodd, mae pawb sy'n cofio'r cyfnod yn gwybod yn iawn am y ceisiade hyn nad oedd modd eu gwrthod.

A dyna a fu.



Pan ddaeth copi o'r darn gosod i law, "Tyrd Wanwyn Mwyn" o waith Haydn, sylweddolwyd y byddai angen rhannu'r criw tenau (wel tenau o ran rhif) o ddynion yn bedwar llais. Yn wir, roedd hi'n un her ar ôl y llall, ac eto roedd digon o hwyl a sbri i'w gael yn yr ymarferion bob tro. Pwy all anghofio ffraethineb Brian Davies, a'r tynnu coes rhwng Dafydd Huws a'r baswyr.

Doedden ni ddim yn cymryd ein hunain ormod o ddfri...OND, wrth i'r gystadleuaeth agosáu, roedd hi'n amlwg bod rhai aelodau yn llygadu gwobr, ac yn anfodlon dros ben fod Côr Tregaron wedi gwneud tipyn o sioe o'u hunen ar y llwyfan, a gwrthod mynd ymlaen â'u perfformiad am ryw reswm tila.

Tipyn o sioc i mi oedd cael fy hel o'r patio bwyd i'r llwyfan pan ddaeth y dyfarniad fod côr Bethlehem wedi cipio'r drydedd wobwr, o blith nifer go helaeth o gorau, gyda chryn ganmoliaeth am berfformiad cerddorol!!!!

Falle dylen ni fod wedi mwynhau'r llwyddiant a'i gadael hi yn fanna, ond, diolch i Huw Llywelyn Davies, "Dewch 'mlân bois bach" mynte fe, "ma' rhaid inni gystadlu yn steddfod Llanelli". Chware teg i Huw, mae ganddo lais da, a doedd dim iws lladd ei frwdfrydedd. (Ond ddwedodd e ddim ei fod am ddianc i ben draw'r byd ar ryw daith rygbi yn ystod misoedd tyngedfennol yr ymarfer).

Rhaid cyfaddef fod y darn prawf y tro hwn hefyd yn heriol, sef yr "Hostias" o Requiem Mozart, darn sy'n ffefryn mawr gen i. Ac rwy'n credu mai'r tro cyntaf i'r côr i gyd fod yn bresennol oedd ar lwyfan y Genedlaethol.

Mae'n diolch i archifau Penri Williams, Pentyrch, am y lluniau. Os hoffech chi weld y perfformiad cyflawn, yr "Hostias", "Rhosyn Duw" a "Dyry Dafydd gân ar dy dant" – mae hwnnw hefyd wedi dod o archif Penri ac mae i'w weld ar:

<http://hendre.cymru/fideo/2000CorBethlehem.mp4> Wel, dyma i chi gôr golygus, cynhwysol, cyfeillgar o'n cymdeithas hyfryd yma ym Methlehem. (**Lluniau isod ac ar y dudalen nesaf!**)

Dyna biti, dwi wedi methu â dod o hyd i'r feirniadaeth gawson ni yn Llanelli.



(parhad o'r dudalen flaenorol) ... A dyma chi. Os oeddech chi yno, yn Llanelli 2000, dichon fod camerâu S4C wedi eich dal rhywle fan hyn.



Diolch eto i Penri Williams am ddiogelu'r cofnod.

Englyn-gyda-llun a cherdd i Graffiti Bois y Cilie sydd wedi sbarduno'r beirdd yr wythnos hon:



“12.07.20”
Nos Sul gerllaw Ynys Sili - euraid
Yw'r gorwel a heli
Y llanw wrthi'n llenwi'r
Ffos sy' rhwng y nos a ni.

Rhys Powys

Cyflwyniad Hannah Roberts: "Yn ddiweddar, weles i gerdd yn Gair bach Bethlehem o'r enw "Graffiti", o eiddo Martin Huws fi'n cretu. Wel, ryw ddwy flynedd yn ôl, dyna o'dd y testun am y gater mewn rhyw stedd fod leol yn y Gorllewin. Hales i'r gerdd 'ma miwn, a'r graffiti o'dd yr englynion o'dd Bois y Cilie yn arfedd sgrifennu ar walia'r tai-mas ar y ffarm, a dryse'r beudy a'r sguor. Enilles i ddim, (ife ti Martin 'nillws?) ond ma' dou o deulu'r Cilie yn hoff iawn o'r gerdd, yn cynnwys Dafydd Iwan, a ma' hynny'n ddicon i fi!

Graffiti

Yn ishte'n dwt ar garffed o gaeau
a'i lygaid yn llaith ,
saif amaethdy,
amaethdy,
a fu'n ferw o forwyr
yn fysedd o feirdd.
O'r fan hyn,
aelodau aeth o aelwyd
i hwylio'r heli,
cilio o'r Cilie
i bedwar ban byd.
ond,
prydyddion y pridd oeddent
a'r Cilie yn celu yn eu calon.

Nôl adre',
yn llecyn Llangrannog,
roedd teulu yn talyrna.
O gwmpas sgwâr o glôs
bu muriau noeth
a drysau trwsgwl
yn gofyn am eu gwisgo.

Yn syllu o'r sguor,
yn pingo o'r pren,
yn edliw o'r ydian
roedd englynion ar ongl,
cerddi caeth
yn bwyta i bren beudy
fel "drei rot" o bry prydyddol.

Camu i gyfrol o gerddi,
fu agor drysau ar y clôs ,
englynion gofyn,
englynion ateb,
a'r fwyalchen yn fodd i feirdd.

Yma,
ar y llecyn hwn,
bu crefft y graffiti,
yma,
wedi'u cywain i ydian o adwy
i sguor o sment,
bu cynhaeaf y gerdd.

Hannah Roberts